| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 16 Gorffennaf 2025 |
| **Pwnc:** | Gweithredu Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector cyhoeddus y DU |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gosod dyletswydd benodol ar y Pwyllgor i oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor fel rhan o'i ddyletswyddau deddfwriaethol, dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (3.4.8.10.1).<br><br>Mae safonau archwilio mewnol newydd yn orfodol o 1 Ebrill 2025 ac mae'r adroddiad hwn yn hysbysu'r pwyllgor am y cynnydd a wnaed wrth roi'r safonau ar waith ac mae'n cynnwys cynllun gweithredu sy'n manylu ar y gwaith pellach sydd angen ei wneud er mwyn i'r cyngor gydymffurfio â'r safonau newydd. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Cyhoeddodd y Sefydliad Archwilwyr Mewnol (IIA) Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) newydd ar 9 Ionawr 2024. Er bod y safonau'n berthnasol i'r proffesiwn archwilio mewnol 'byd-eang', roedd yr IIA yn cydnabod fod strwythurau llywodraethu neu ddeddfwriaeth, neu reoliadau eraill yn y sector cyhoeddus, yn gallu effeithio ar sut y gweithredir y safonau.

1.2. O'r herwydd, yn dilyn adolygiad ac ymgynghoriad hirfaith, roedd y Gosodwyr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol ar gyfer sector cyhoeddus y DU wedi mandadu fframwaith newydd ar gyfer gwaith archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU, a daeth i rym ar 1 Ebrill 2025 yn dilyn cyfnod trosiannol. Mae'r fframwaith newydd yn cynnwys:

- Y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, a gyhoeddwyd yn Ionawr 2024.
- Nodyn Gweithredu - Safonau Archwilio mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU, sy'n darparu cyd-destun sector-benodol ar gyfer sector cyhoeddus y DU, dehongliad o ofynion y GIAS o dan yr amgylchiadau y disgwylir iddynt fod yn berthnasol yn sector cyhoeddus y DU a rhai gofynion ychwanegol y mae'r RIASS yn eu hystyried yn hanfodol ar gyfer archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU. Cyhoeddwyd y nodyn gweithredu ym mis Rhagfyr 2024.

- Cod Llywodraethu Archwilio Mewnol CIPFA, sy'n darparu gofynion penodol sydd yn berthnasol i'r sector llywodraeth leol ac mae'n cynorthwyo awdurdodau i sefydlu eu trefniadau archwilio mewnol trwy ddarparu trosolwg a chymorth ar gyfer archwilio mewnol. Cyhoeddwyd y cod ym mis Chwefror 2025.

## 2. Dadansoddi Bylchau

2.1. Cwblhawyd dadansoddiad o'r bylchau yn erbyn y safonau newydd er mwyn penderfynu beth sydd angen ei newid er mwyn sicrhau fod y cyngor yn cydymffurfio ag egwyddorion y fframwaith newydd. Yn gyffredinol, oherwydd ymagwedd fodern y cyngor mewn perthynas ag archwilio mewnol, mae ei swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r gofynion newydd.

2.2. Fodd bynnag, mae angen cryfhau rhai meysydd a drafftiwyd cynllun gweithredu gweithredol sy'n cynnwys amserlenni, yn ogystal â neilltuo cyfrifoldebau (mae atodiad A yn cyfeirio at hyn). Mae'r rhan fwyaf o'r gweithredoedd yn ymwneud â chryfhau trefniadau casglu gwybodaeth er mwyn cefnogi arferion gweithio.

## 3. Camau sydd wedi'u cymryd yn barod

3.1. Mae rhai camau nodedig wedi'u rhoi ar waith yn barod:

**Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

3.2. Derbyniodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gylch gorchwyl diwygiedig yn ei gyfarfod ym mis Mai 2025. Roedd y newidiadau'n cynnwys gwneud rhai o gyfrifoldebau'r pwyllgor mewn perthynas â goruchwylio archwilio mewnol a pha mor aml y dylai gyflawni rhai o'i gyfrifoldebau yn fwy eglur.

**Siarter Archwilio Mewnol**

3.3. Mae Cyngor Sir Ynys Môn eisoes yn bodloni'r rhan fwyaf o'r gofynion yn y fframwaith newydd mewn egwyddor, ac fe gymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu rhai o'r mân newidiadau i'r siarter yn Ebrill 2024, yn barod ar gyfer y safonau newydd.

3.4. Adolygwyd y siarter ymhellach ar ôl cyhoeddi'r fframwaith llawn ac fe'i cyflwynwyd i'r pwyllgor ei hystyried a'i chymeradwyo ym mis Mehefin 2025. Roedd y siarter ddiwygiedig yn sicrhau fod y gofynion yn eglur. Roedd y newidiadau'n cynnwys cryfhau trefniadau llywodraethu ar gyfer archwilio mewnol, gan gynnwys ei fandad a'i linell adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac mae'n ofynnol hefyd i uwch reolwyr weithio gyda'r Pennaeth Archwilio a Risg i sicrhau bod y siarter yn nodi'r trefniadau sydd eu hangen ar y swyddogaeth er mwyn cyflawni ei phwrpas.

### Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol

3.5. Mae'r fframwaith newydd yn cyflwyno gofyniad ar y 'prif swyddog archwilio' i ddatblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer y swyddogaeth archwilio mewnol sy'n cefnogi amcanion strategol y cyngor ac sy'n cyd-fynd â disgwyliadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, uwch reolwyr, a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'n cynnwys sicrhau bod gweledigaeth, cenhadaeth ac amcanion strategol y swyddogaeth archwilio mewnol yn eglur ac mae'n gofyn am gynlluniau a metricsau allweddol ategol er mwyn cynorthwyo i fonitro'r strategaeth.

3.6. Mae Strategaeth Archwilio Mewnol blynyddol Cyngor Sir Ynys Môn wedi bod yn cyflawni'r gofyniad sylfaenol hwn ers sawl blwyddyn ac mae'n gyfrwng i sicrhau bod archwilio mewnol yn parhau i fod yn berthnasol, ei fod yn gallu addasu a'i fod yn cyd-fynd ag amcanion cyffredinol y Cyngor.

3.7. Er hynny, mae'r GIAS yn mynd ymhellach ac mae'n argymell y dylid dylunio'r strategaeth i ysbrydoli archwilwyr mewnol i wella'n barhaus, a dylai gynnwys cynlluniau i gyflawni gweledigaeth y swyddogaeth, megis cyfleoedd i gynorthwyo archwilwyr mewnol i ddatblygu eu cymwyseddau, cyflwyno a defnyddio technoleg i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y swyddogaeth a chyfleoedd i wella'r swyddogaeth archwilio mewnol gyfan.

3.8. Fe wnaeth cwblhau dadansoddiad o aeddfedrwydd helpu i nodi'r cynlluniau allweddol oedd angen i'r swyddogaeth eu rhoi ar waith er mwyn gwireddu ei gweledigaeth ac roeddent wedi'u cynnwys yn y Strategaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgor ac a gymeradwywyd ganddo yn y cyfarfod ym mis Mehefin 2025.

### Moeseg a Phroffesiynoldeb

3.9. Mae Maes II yn y GIAS yn cymryd lle Cod Moeseg blaenorol yr IIA ac mae'n canolbwyntio ar foeseg a phroffesiynoldeb, gan osod disgwyliadau ymddygiad ar gyfer archwilwyr mewnol ar bob lefel a swyddogaeth. Ei nod yw meithrin ymddiriedaeth yn y proffesiwn archwilio mewnol, hyrwyddo diwylliant moesegol mewn timau archwilio a sicrhau fod archwilwyr yn gweithredu gydag uniondeb, gwrthrychedd, cymhwysedd a chyfrinachedd.

3.10. Er mwyn sicrhau bod y tîm archwilio mewnol yn meddu ar sgiliau i gydymffurfio â'r gofynion hyn, cymerodd y tîm ran mewn sesiwn hyfforddiant a ddarparwyd gan Bartneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru ar 16 Mehefin 2025. Roedd y sesiwn ar y cyd yn cynnwys yr holl archwilwyr awdurdod lleol o bob rhan o ogledd a chanolbarth Cymru, ynghyd â chydweithwyr o Gyngor Gorllewin Swydd Gaer a Dinas Caer, a fu'n cydweithio i gynnal y digwyddiad hyfforddi.

## 4. Argymhelliad

4.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried a yw'n fodlon y bydd y gweithredoedd sydd wedi'u cymryd ac y bwriedir eu cymryd yn helpu i sicrhau fod Cyngor Sir Ynys Môn yn cydymffurfio â gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd yn Sector Cyhoeddus y DU.

## Atodiad A – Cynllun Gweithredu

| Cyf | Maes | Safon | Gweithred | Gan bwy | Erbyn Pryd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | <br>2<br>2<br>2<br>2<br>4<br>4<br>4<br>5 | <br>1.1<br>2.2<br>3.1<br>4.2<br>12.1<br>12.2<br>12.3<br>13.1 | Datblygu arolwg adborth i dystiolaethu perfformiad archwilwyr mewn perthynas â:<br>1.1 Gonestrwydd a dewrder proffesiynol<br>2.2 Gwrthrychedd<br>3.1 Cymhwysedd<br>4.2 Gofal proffesiynol dyladwy<br>12.1 Asesiad ansawdd mewnol<br>12.2 Mesur perfformiad<br>12.3 Perfformiad ymgysylltiad<br>13.1 Cyfathrebu ymgysylltiad | Pennaeth Archwilio a Risg | Medi 2025 | Heb gychwyn |
| 2 | 2 | 3.1 | Cynnwys cadarnhad bod archwilwyr wedi darllen / ystyried / yn ymwybodol o'r GIAS yn y Datganiad blynyddol Ymddygiad Moesegol, Gwrthdaro Buddiannau, Annibyniaeth a Chyfrinachedd. | Pennaeth Archwilio a Risg | Mehefin 2025 | Cwblhawyd 30/06/25 |
| 3 | 2 | 3.2 | Cynnwys cadarnhad bod archwilwyr wedi cwblhau unrhyw Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) perthnasol. | Pennaeth Archwilio a Risg | Mehefin 2025 | Cwblhawyd 30/06/25 |
| 4 | 2 | 4.1 | Diweddaru'r templed adroddiad i adlewyrchu'r GIAS (Sector Cyhoeddus y DU) | Pennaeth Archwilio a Risg | Mehefin 2025 | Cwblhawyd 20/06/25 |
| 5 | 2<br>2<br>4<br>5<br>5<br>5<br>5 | 1.3<br>4.3<br>12.3<br>13.4<br>13.6<br>14.1<br>14.2 | Sicrhau bod templed y papur gweithio yn cael ei gwblhau fel mater o drefn a bod adolygiadau'n cael eu cofnodi'n ffurfiol a bod y dyddiad yn cael ei gofnodi yn y cynllun gweithredol. Cynnwys sesiwn briffio fel rhan o'r cyfarfod tîm er mwyn atgoffa'r tîm o'r gofyniad hwn a'r arfer o gwblhau papurau gweithio. | Pennaeth Archwilio a Risg | Mehefin 2025 | Cwblhawyd 30/06/25 |
| 6 | 3 | 8.1 | Dogfennu'n ffurfiol y protocol ar gyfer cyfleu derbyn risg o fewn y Siarter Archwilio Mewnol. | Pennaeth Archwilio a Risg | Mehefin 2025 | Cwblhawyd Diweddarwyd y siarter ar 03/06/25 Cymeradwywyd gan y Pwyllgor |

| Cyf | Maes | Safon | Gweithred | Gan bwy | Erbyn Pryd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Llywodraethu ac Archwilio 20/06/25 |
| 7 | 3 | 8.3 | Cynnwys Datganiad y Pennaeth Archwilio a Risg ynglŷn â chydymffurfio â'r PSIAS / GIAS yn adroddiad blynyddol y Cadeirydd o 2025-26 ymlaen. | Pennaeth Archwilio a Risg | Mehefin 2026 | Ni ellir ei gwblhau tan fis Mehefin 2026 |
| 8 | 4 | 9.1 | Cynnwys cyfeiriad at werth am arian yn y ddogfen sgopio. Mae'n rhaid i archwilwyr yn sector cyhoeddus y DU fod yn ymwybodol o bwysigrwydd sicrhau gwerth am arian a'r diffiniadau sy'n diffinio'r term hwnnw yn eu rhan nhw o sector cyhoeddus y DU. | Pennaeth Archwilio a Risg | Medi 2025 | Heb gychwyn |
| 9 | 4 | 9.2 | Cwblhau dadansoddiad aeddfedrwydd (gan gynnwys SWOT) mewn cyfarfod tîm fel sail i'r Strategaeth Archwilio Mewnol | Pawb | Mai 2025 | Cwblhawyd Cyfarfod Tîm 28/05/25 |
| 10 | 4 | 9.3 | Cyflwyno sesiwn hyfforddi ar fethodolegau archwilio | Pennaeth Archwilio a Risg | Medi 2025 | Heb gychwyn |
| 11 | 4 | 9.4 | Cofnodi cyfarfodydd gydag ymgynghoreion yn ffurfiol wrth baratoi'r strategaeth flynyddol | Pennaeth Archwilio a Risg | Mawrth 2026 | Heb gychwyn |
| 12 | 4 | 9.4 | Y daenlen fewnbynnu i'w chadw yn y ffolder cynllunio strategaeth | Pennaeth Archwilio a Risg | Mai 2025 | Heb gychwyn |
| 13 | 4 | 9.5 | Annog bod map sicrwydd y Cyngor yn cael ei gwblhau gyda'r llinell gyntaf a'r ail linell | Pennaeth Archwilio a Risg | Mai 2026 | Gwaith ar y Gweill |
| 14 | 4 | 9.5 | Datblygu cofrestr sicrwydd partneriaethau er mwyn nodi awdurdodau lletyol a darparwyr sicrwydd gyda Phartneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru | Pennaeth Archwilio a Risg | Mai 2025 | Gwaith ar y Gweill |
| 15 | 4 | 11.1 | Cofnodi tystiolaeth o ganmoliaeth / cyfathrebu da yn y ffolder canmoliaeth | Pennaeth Archwilio a Risg | Pan dderbynnir canmoliaeth | Pan dderbynnir canmoliaeth |
| 16 | 4 | 11.1 | Ychwanegu tystiolaeth o'r arolwg boddhad cleientiaid blynyddol i'r ffolder canmoliaeth | Pennaeth Archwilio a Risg | Mawrth 2026 | Heb gychwyn |

| Cyf | Maes | Safon | Gweithred | Gan bwy | Erbyn Pryd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | 4 | 11.4 | Datblygu templed ar gyfer rhannu fersiwn 2 o'r adroddiad terfynol ar e-bost yn dilyn camgymeriad sylweddol neu os oes gwybodaeth arwyddocaol wedi'i hepgor. | Pennaeth Archwilio a Risg | Pan fydd angen | Heb gychwyn |
| 18 | 4 | 11.5 | Cynnwys protocol ar gyfer lefelau risg annerbyniol yn y Siarter. | Pennaeth Archwilio a Risg | Mehefin 2025 | Cwblhawyd Diweddarwyd y siarter ar 03/06/25 Cymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 20/06/25 |
| 19 | 4 | 12.2 | Cynnwys diweddariad ar Amcanion Strategol Archwilio Mewnol yn adroddiad blynyddol 2026-27 | Pennaeth Archwilio a Risg | Mehefin 2026 | Ni ellir ei gwblhau tan fis Mehefin 2026 |
| 20 | 5 | 13.3 | Datblygu templed sgôp cynghori | Pennaeth Archwilio a Risg | Pan fydd angen | Heb gychwyn |
| 21 | 5 | 14.6 | Adolygu polisi cadw Archwilio Mewnol | Pennaeth Archwilio a Risg | Mawrth 2026 | Heb gychwyn |
| 22 | 5 | 15.1 | Atgoffa bod angen cadw gohebiaeth e-bost ynglŷn â chytuno ar adroddiadau / cynlluniau gweithredu (a chyhoeddi gohebiaeth ddrafft a therfynol) | Pennaeth Archwilio a Risg | Mai 2025 | Cwblhawyd Cyfarfod Tîm 28/05/25 |